

# Ein ymchwiliad ar ei liwt ei hun ar asesiadau a chwynion gofalwyr

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Ein Hymchwiliad Ar ei Liwt ei Hun Ehangach Arfaethedig– Gofalwyr: Asesiadau a Chwynion'.

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 22**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Post:** 1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ

**Gwefan:** [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)

**Ffôn:** 0300 790 0203

**E-bost:** [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan Hawdd ei Ddeall Cymru gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, [cliciwch yma](#).

# Cynnwys

## Tudalen

Cyflwyniad.....	4
Am yr ymchwiliad.....	5
Amygyfraith.....	8
Pam rydych chi'n meddwl bod angen inni edrych ar asesiadau a chwynion gofalwyr?.....	10
Sut i ymateb.....	14
Cwestiynau.....	15
Am asesiadau.....	15
Am wneud cwynion.....	17
Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth.....	21
Geriau Anodd.....	22

# Cyflwyniad



Ni ydy **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**.

Rydyn ni'n delio gyda chwynion am:

- **Gwasanaethau cyhoeddus**



**Gwasanaethau cyhoeddus** ydy gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft, cynghorau lleol, GIG, landlordiaid cymdeithasol.



- Cynghorwyr lleol yn torri'r **cod ymddygiad**. Cynghorwyr lleol ydy pobl sydd yn cael eu dewis i redeg cyngor.

**Cod ymddygiad** ydy'r rheolau a'r safonau mae'n rhaid i rhywun eu dilyn yn eu swydd.



Ein nod ydy gwella **gwasanaethau cyhoeddus**.

# Am yr ymchwiliad



Rydyn ni'n gallu gwneud ein **ymchwiliadau** ar ei liwt ei hun.



Mae **ymchwiliadau** ar ei liwt ei hun yn meddwl ein bod ni yn gallu edrych ar rai materion hyd yn oed os nad ydyn ni wedi derbyn cwyn amdany'n nhw.

**Ymchwiliad** ydy edrych i mewn i rywbeth.



Fe fyddwn ni yn gwneud hyn os ydyn ni'n meddwl bod yna broblem difrifol.



Rydyn ni'n meddwl am wneud **ymchwiliad** ar ei liwt ei hun i weld pa anawsterau mae gofalwyr yn eu wynebu i gael **asesiad**. Neu i wneud cwynion.

Mae **asesiad** yn edrych i weld pa help ychwanegol rydych chi efallai eisiau. Fe fydd asesiad yn edrych ar bethau fel beth rydych chi ei eisiau a'i angen.

## Fe fydden ni yn edrych ar:



- **asesiadau** anghenion gofalwyr



- os ydy'r gwasanaeth iechyd a'r awdurdod lleol yn delio gyda chwynion gan ofalwyr yn y ffordd gywir.

Os ydyn ni wedi darganfod nad oedd rhywbeth yn iawn, fe fydden ni yn rhoi **argymhelliadau** i wneud yn siŵr:



- Gofalwyr yn cael yr **asesiadau** anghenion mewn pryd.




- Gwasanaethau iechyd ac awdurdodau iechyd yn delio gyda chwynion gan ofalwyr yn y ffordd gywir.



**Argymhelliad** ydy dweud beth sydd angen ei wneud i ddatrys problem. Fe fydden ni hefyd yn rhannu syniadau am sut y mae **gwasanaethau cyhoeddus** yng Nghymru yn gallu gwella.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein **hymchwiliad** ar ei liwt ei hun.



Mae'n bwysig eich bod chi yn darllen y brif ddogfen cyn ateb y cwestiynau..



Anfonwch eich ymatebion inni erbyn **Dydd Llun, 6 Chwefror 2023** cyn hanner nos.



Os ydych chi angen y ddogfen mewn fformat arall cysylltwch gyda ni yn: [LiwtEiHun@ombwdsmon.cymru](mailto:LiwtEiHun@ombwdsmon.cymru)



# Am y gyfraith

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn ddeddf sydd gyda'r nod o wella iechyd a llesiant:



- pobl sydd angen gofal a chefnogaeth



- gofaluwr sydd angen cefnogaeth.



Mae'r ddeddf yn dweud bod gofaluwr yn berson sydd yn gofalu am rhywun a dim yn cael eu talu am wneud hynny.



Mae gofaluwr yn gallu bod yn aelod o'r teulu, ffrind neu yn rhywun arall sydd yn helpu. Efallai eu bod nhw yn gofalu am blentyn neu berson sâl, oedrannus neu anabl.



Os ydych chi angen cefnogaeth fe ddylai eich cyngor lleol eich **asesu** chi a'r bobl rydych chi'n gofalu amdany'n nhw. Dyna ydy'r gyfraith.



## Fe fyddan nhw yn edrych ar bethau fel:



- beth rydych chi eisiau a'i angen,
- eich iechyd a
- eich cyfrifoldebau eraill. Fel plant neu waith.



Mae **Gofalwyr Cymru** wedi cyhoeddi rhai ffeithiau pwysig yn dangos faint o bobl sydd wedi cael eu heffeithio yng Nghymru:

- Yn ôl yr wybodaeth sydd wedi cael ei gasglu yn 2011 mae dros 370 mil o ofalwyr di-dâl yng Nghymru.
- Mae'r **Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol** yn dangos bod 487 mil o ofalwyr yng Nghymru mewn arolwg yn 2019.
- Bob blwyddyn yng Nghymru mae 123 mil o bobl yn dod yn ofalwyr di-dâl.
- Mae gofalwyr yng Nghymru yn arbed arian i wasanaethau drwy ddarparu gofal a chefnogaeth di-dâl i'w hanwyliaid.

# Pam rydych chi'n meddwl bod angen inni edrych ar asesiadau a chwynion gofalwyr?

Cyn inni ddechrau ein **hymchwiliad** ar ei liwt ei hun rhaid inni edrych i weld:




- Bydd yr **ymchwiliad** o fantais i'r cyhoedd.

- Bod gennym brawf:

- bod problem yn y ffordd mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Neu dydy gwasanaethau ddim yn gweithio'n iawn.

- mae person wedi dioddef oherwydd y broblem.



- mae'r broblem wedi gwneud i lawer o bobl ddioddef.



Mae gofalwyr a phobl sydd yn derbyn gofal yn dibynnu mwy ar **wasanaethau cyhoeddus** nag eraill.



Fe wnaethon ni edrych ar faint o gwynion gan ofalwyr roedden ni wedi eu derbyn. Fe wnaethon ni ddarganfod ein bod wedi cael nifer fach iawn o gwynion gan ofalwyr a'r bobl roedden nhw'n gofalu amdany'n nhw.



Efallai nad ydy gofalwyr yn gwybod sut i wneud cwyn. Neu mae ganddyn nhw bethau pwysig eraill i feddwl amdany'n nhw.



Fe wnaeth cyrff eraill ddweud wrthyn ni bod gofalwyr yn cael problemau i gael **asesiadau** a gwneud cwynion.



Maen nhw'n cael llai o ymatebion i'w cwynion.



Mae cyrff eraill hefyd eisiau inni edrych i mewn i'r broblem yma.



Rydyn ni'n credu y byddai o fudd i'r cyhoedd.



Rydyn ni eisiau gwybod os ydy pobl yn meddwl y bydd o fudd i'r cyhoedd os ydyn ni yn **ymchwilio** i'r mater yma.

### Rydyn ni eisiau clywed oddi wrth:



- Gofalwyr di-dâl neu bobl sydd yn derbyn gofal



- Pobl sydd wedi cael **asesiad** gofalwr

- Pobl sydd wedi gwneud cwynion i wasanaeth iechyd neu awdurdod lleol



- Pobl sydd wedi bod yn delio gydag **asesiadau** neu gwynion gofalwyr



- Pobl sydd yn helpu eraill gydag **asesiadau** a gwneud cwynion



- Awdurdodau lleol
- Byrddau iechyd



- Darparwyr gofal sylfaenol



- **Eiriolwyr**

**Eiriolydd** ydy rhywun sydd yn siarad i fyny drosoch chi i'ch helpu chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud a chael eich anghenion wedi eu hateb.



- Cyrff **trydydd sector**

y **trydydd sector** ydy enw arall ar gyrff gwirfoddol, elusennol neu ymgyrchu.



- Pobl sydd eisiau dweud rhywbeth am y pwnc.

# Sut i ymateb



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl am ein **ymchwiliad** i ddarganfod beth ydy'r anawsterau mae gofalwyr yn ei wynebu.



Anfonwch eich ymatebion erbyn **dydd Llun 6 Chwefror 2023** cyn hanner nos.



**Atebwch y cwestiynau yn y ddogfen yma a'u hanfon i:**

**E-bost:** [LiwtEiHun@ombwdsmon.cymru](mailto:LiwtEiHun@ombwdsmon.cymru)



**Post:**

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ



**Ffôn:** 01656 644238 a gofynnwch i gael siarad gyda Swyddog Arweiniol Ar ei Liwt ei Hun.

# Cwestiynau

## Am asesiadau



1. Ydy **asesiadau** ar gyfer gofalwyr a phobl sydd yn derbyn gofal yn cael eu cynnig? Ac yn cael eu gorffen yn gywir mewn pryd?





2. Ydy gofaluwr yn ei chael yn anodd i gael **asesiad** iddyn nhw eu hunain neu i'r person maen nhw'n gofalu amdany'n nhw?



3. Ydy'r gofal a'r gefnogaeth yn cael ei gytuno ac yn cael ei roi yn yr amser cywir?

## Am wneud cwynion



4. Ydy gofalwyr yn derbyn gwybodaeth am sut i wneud cwyn. A sut i gael help gan gyrff Cyngori ac Eiriolaeth?



5. Ydy gofalwyr yn ei chael yn anodd i siarad am broblemau maen nhw'n eu wynebu wrth ddarparu gofal?



6. Os nad ydy'r broblem yn gallu cael ei datrys yn lleol ydy awdurdodau lleol yn gwneud **ymchwiliad** ffurfiol? Er enghraifft defnyddio **ymchwilwyr** allanol i ddarganfod rhagor.



7. Ydy awdurdodau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau iechyd yn dilyn eu rheolau eu hunain wrth ddelio gyda chwynion?



**8. Oes yna unrhyw anawsterau wrth ddelio gyda chwynion am wasanaethau ar y cyd gan awdurdod lleol a bwrdd iechyd?**



**9. Os nad ydy gofalwyr yn hapus gyda'r penderfyniad maen nhw yn ei gael, ydyn nhw'n gwybod eu bod nhw yn gallu cwyno wrth yr Ombwdsmon?**



**10. Ydy cwynion ac adborth gofalwyr yn cael eu defnyddio i wella sut rydyn ni'n gweithio?**

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth



Rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth drwy ddilyn deddf o'r enw **y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data DU (UK GDPR)**.



Fel arfer rydyn ni yn cyhoeddi adroddiad neu yn ei roi ar y rhyngwrdd yn dangos y math o bethau mae pobl wedi ei ddweud.



Dywedwch wrthyn ni os nad ydych chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei gynnwys.



Darllenwch am ein hysbysiad preifatrwydd yma: <https://www.ombwdsmon.cymru/hysbysiad-preifatrwydd/>

Am ragor o wybodaeth am sut y byddwn ni yn defnyddio eich gwybodaeth cliciwch yma: <https://www.ombwdsmon.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-ymgyngoriadau-arolygon-a-digwyddiadau-ymgysylltu/>

# Geriau Anodd

## Argymhelliad

Argymhelliad ydy dweud beth sydd angen ei wneud i ddatrys problem. Fe fydden ni hefyd yn rhannu syniadau am sut y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn gallu gwella.

## Asesiad

Mae asesiad yn edrych i weld pa help ychwanegol rydych chi efallai eisiau. Fe fydd asesiad yn edrych ar bethau fel beth rydych chi ei eisiau a'i angen.

## Cod ymddygiad

Cod ymddygiad ydy'r rheolau a'r safonau mae'n rhaid i rhywun eu dilyn yn eu swydd.

## Eiriolydd

Eiriolydd ydy rhywun sydd yn siarad i fyny drosoch chi i'ch helpu chi i ddweud beth rydych chi eisiau ei ddweud a chael eich anghenion wedi eu hateb.

## Gwasanaethau cyhoeddus

Gwasanaethau cyhoeddus ydy gwasanaethau y mae'r Llywodraeth yn talu amdany'n nhw. Er enghraifft, cynghorau lleol, GIG, landlordiaid cymdeithasol.

## Trydydd sector

y trydydd sector ydy enw arall ar gyrff gwirfoddol, elusennol neu ymgyrchu.

## Ymchwiliad

Ymchwiliad ydy edrych i mewn i rywbeth.